# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 28 Ionawr 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Christine Chapman (Cwm Cynon);** Faint a dderbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gan y Cynulliad yn y Setliad Llywodraeth Leol bob blwyddyn, ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion pob cynnydd a phob swm fel bod modd eu cymharu. (WAQ15426)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff y Gweinidog roi cyfarwyddyd i'r Awdurdodau Lleol ynghylch cynnig ystod lawn o opsiynau llety gan gynnwys cymunedau pentref i bobl a chanddynt anableddau dysgu, a hynny ar sail anghenion yr unigolyn. (WAQ15430)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod cymunedau pentref yn ffordd dderbyniol o ddarparu llety i bobl a chanddynt anableddau dysgu. (WAQ15429)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff y Gweinidog ystyried rhoi cyfarwyddyd newydd i awdurdodau lleol ynghylch y broses asesu, meini prawf cymhwyster a darparu gwasanaethau i bobl a chanddynt anableddau dysgu. (WAQ15428)

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddweud a fyddai offerynnau ysgrifenedig o dan Gymal 6(1) 16BC Mesur Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Proffesiynau Gofal Iechyd yn cael eu hystyried yn Gyfarwyddiadau deddfwriaethol neu anneddfwriaethol y Cynulliad. (WAQ15434)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**David Davies (Mynwy);** A yw'r Cynulliad wedi rhyddhau'r gyllideb i Gronfa'r Mudiadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol. (WAQ15431)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw hynt yr astudiaeth o ddyfeisiau distewi gwynt ar

yr M4 yn Llansawel a phryd y mae disgwyl adroddiad. (WAQ15432)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud unrhyw gyfraniadau at gostau refeniw a chyfalaf llosgydd Castell-nedd Port Talbot yn Nhywyn Crymlyn. (WAQ15433)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwaith cynnal a chadw a wnaethpwyd rhwng cyffordd 38 a chyffordd 42 dros y 5 mlynedd diwethaf. (WAQ15461)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i roi cymorth ariannol i Stadiwm y Mileniwm. (WAQ15446)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o arian cyhoeddus sydd wedi'i wario ar roi cymorth i redeg Stadiwm y Mileniwm. (WAQ15445)